

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO	SPECIAL MEETING OF THE PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE
DYDD MERCHER, 13 TACHWEDD, 2024 am 2.00 o'r gloch yp	WEDNESDAY, 13 NOVEMBER, 2024 at 2.00 pm
CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNOGR, LLANGFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM	HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI AND VIRTUALLY THOROUGH ZOOM
Swyddog Pwyllgor	Mrs. Mairwen Hughes 01248 752518 Committee Officer

ELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

Y Grwp Annibynnol / The Independent Group

Gwilym O Jones (**Is-gadeirydd/Vice-Chair**)

Plaid Cymru / The Party of Wales

Non Dafydd, Eyrn Morris, John Ifan Jones, Dylan Rees (**Cadeirydd/Chair**), Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams

Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

Llafur Cymru/Welsh Labour

Pip O'Neill

Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)

Mrs Wenda Owen- (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Sedd Wag/Vacant Seat-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)

Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)

Mr. Dafydd Gruffydd (Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 COFNODION (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Hydref, 2024.

4 ARCHWILIO CYMRU : ADRODDIAD GOFAL BRYD AC ARGYFWNG - LLIF ALLAN O'R YSBYTY - RHANBARTH GOGLEDD CYMRU (Tudalennau 11 - 86)

Cyflwyno adroddiad gan Archwilio Cymru.

5 BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR (Tudalennau 87 - 118)

Cyflwyno adroddiad gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2024

PRESENNOL: Cyngorydd Dylan Rees (Cadeirydd)
Cyngorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff M Evans, John Ifan Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor and Sonia Williams

Mrs Gillian Thompson – Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion
Cynradd);
Mr John Tierney -Yr Eglwys Gatholig

Aelodau Portffolio

Cyngorydd Gary Pritchard – Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio dros Ddatblygu Economaidd;

Cyngorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg)

WRTH LAW: Prif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (ar gyfer eitem 5 yn unig),
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 4 yn unig),
Pennaeth Democratiaeth,
Rheolwr Sgriwtini (AD),
Swyddog Sgriwtini (EA),
Swyddog Pwyllgor (MEH),
Swyddog Gweddarlledu (FT).

YMDDIHEURIADAU: Dirprwy Brif Weithredwr

HEFYD YN BRESENNOL:

Aelodau Portffolio

Cyngorydd Neville Evans – Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol;
Cyngorydd Carwyn Jones – Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer;
Cyngorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol;
Cyngorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd;
Cyngorydd Dafydd Rhys Thomas – Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff;
Cyngorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai.

Mr Dafydd Gruffydd – Rheolwr Gyfarwyddwr , Menter Môn (Eitem 4 yn unig).

Mrs Gwenno Jones, Mrs Sharon Vaughan, Mr Rhys Williams – cynrychiolwyr GwE (ar gyfer eitem 5 yn unig).

Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai newid i'r drefn gydag eitem 5 – Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer Ynys Môn : 2023/2024 yn cael ei symud i'r eitem olaf ar yr agenda fel bod modd, pe bai'r drafodaeth yn mynd yn ei blaen, i'r cyfarfod gael ei gynnal mewn sesiwn breifat pe bai angen.

1 YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Medi, 2024 yn gywir.

Yn codi

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y 'camau gweithredu' gofynnol yn dilyn y cyfarfod diwethaf a nododd fod Aelodau'r Pwyllgor wedi derbyn adroddiadau fel y gofynnwyd, ynghylch 'Trosolwg o'r gwaith a wnaed gan Gyngor Sir Ynys Môn i godi ymwybyddiaeth ynghylch Costau Byw, ynghyd ag adroddiad 'dilynol' gan MônCF yn dilyn cwestiynau yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi, 2024. Nododd eu bod yn dal i aros am yr adroddiad ar 'Lwybrau Bysiau mewn Ardaloedd Gwledig'.

4 PARTNERIAETH STRATEGOL - MENTER MÔN

Croesawodd y Cadeirydd Mr Dafydd Gruffydd, Rheolwr Gyfarwyddwr - Menter Môn i'r cyfarfod i gyflwyno trosolwg o'r gwasanaethau a ddarperir gan Fenter Môn.

Cydymdeimlodd y Cadeirydd â staff Menter Môn sydd wedi colli aelod gwerthfawr o staff yn ddiweddar.

Dywedodd Mr Dafydd Gruffydd, Rheolwr Gyfarwyddwr - Menter Môn fod Menter Môn wedi ei sefydlu gan y Cyngor Sir yn 1995, a bod penderfyniad wedi'i wneud i sefydlu'r cwmni fel cwmni 'nid er elw' yn 1996 i ddarparu rhaglen LEADER yr UE, oedd yn ceisio datblygu atebion i'r heriau'n wynebu ardaloedd gwledig. Ymhlith y prosiectau yn y blynyddoedd cynnar roedd prosiect Gwiwerod Coch Ynys Môn, adfer Bwthyn Swtan, sefydlu Gŵyl Cefni a datblygu'r llwybr arfordirol a Lôn Las Cefni. Mae'r cwmni wedi datblygu dros y blynyddoedd, gan gyflawni prosiectau

rhanbarthol a chenedlaethol, ond mae amrywiaeth a phwyslais y gwaith ar Ynys Môn wedi aros yn gyson. Cynlluniau fel Afon Menai, sy'n gwarchod Llygod y Dŵr, gwaith y Fenter Iaith, cynnal Castell Aberlleiniog, cefnogi Theatr Ieuenticid Môn a threfnu Gŵyl Cefni. Mae'r cwmni bellach yn cyflogi 85 o staff, sy'n gweithio ar brosiectau a chontractau yn amrywio o gymorth busnes, ynni adnewyddadwy, i gadwraeth amgylcheddol a thechnoleg SMART. At hyn, dywedodd fod y rhan fwyaf o'r gwaith a wneir yn rhanbarthol ac yn genedlaethol trwy gontractau, gydag unrhyw arian dros ben yn cael ei gadw o fewn y cwmni i gefnogi ei brosiectau amrywiol fel y nodwyd yn yr adroddiad. Un o'r prosiectau mwyaf yw Morlais, sy'n anelu at ychwanegu gwerth at y llanw a sicrhau bod Ynys Môn yn elwa drwy greu swyddi, cefnogi cadwyni cyflenwi a chynhyrchu incwm ar gyfer prosiectau cymunedol. At hyn, dywedodd Mr Gruffydd fod Brexit yn fygythiad sylweddol i Fenter Môn gan mai'r UE oedd prif ffynhonnell cyllid y rhan fwyaf o brosiectau'r cwmni. O ganlyniad i'r ansicrwydd hwn, ehangodd y cwmni ei bortffolio, gan edrych ar feysydd newydd a datblygu gweithgareddau cynhyrchu incwm. Mae Menter Môn wedi ailedrych ar nodau'r cwmni ac wedi ystyried y prif feysydd i ddatgloi potensial pobl ac adnoddau i sicrhau dyfodol cymunedau. Y nodau yw cefnogi a meithrin pobl; cryfhau'r economi; hyrwyddo'r amgylchedd a dathlu ein diwylliant. Fodd bynnag, mae'r ansicrwydd yn parhau, yn enwedig o fewn gweithgareddau cymunedol. Mae cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) yn parhau o bosibl tan fis Mawrth 2025 ac arian ARFOR hefyd tan fis Mawrth 2025 gydag estyniad posibl; mae'r cynlluniau hyn yn cyflogi 25 o staff.

Cyfeiriodd Mr Gruffydd at ymrwymïadau Menter Môn ar Ynys Môn a'u bod yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor 2023-2028. Mae'r rhain yn gyson ag amcanion strategol Cynllun y Cyngor, yn enwedig yr iaith Gymraeg, yr economi a newid hinsawdd fel yr amlinellir yn yr adroddiad. Cyfeiriodd ymhellach fod Menter Môn yn ymgysylltu'n gyson ag amryw o grwpiau a chymunedau ar draws yr Ynys. Nid yw Menter Môn yn derbyn cyllid craidd ac felly mae'n rhaid i bob gweithgaredd, gan gynnwys ymgysylltu, fod ynghlwm â chontract neu gynllun grant. Serch hynny, mae Menter Môn yn awyddus i feithrin perthynas sefydlog gyda chymunedau a gwella'r broses gyfathrebu. Cynigiodd y bydd gwybodaeth yn cael ei dosbarthu i'r holl aelodau etholedig erbyn mis Tachwedd 2024 h.y. bydd gwybodaeth yn cynnwys gweledigaeth y cwmni, trosolwg o brosiectau presennol, manylion cyswllt uwch aelodau o staff ac amlinelliad o gynlluniau'r dyfodol. Yn ail, bydd cyfarfod yn cael ei drefnu gydag aelodau etholedig wardiau etholiadol dros gyfnod o 12 mis. Bydd hwn yn gyfle i roi trosolwg o waith y cwmni, tynnu sylw at gynlluniau perthnasol yn eu hardaloedd, a thrafod y cyfleoedd a'r pryderon.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor:-

- Sut y gall gwell cydweithredu â'r Cyngor Sir a chyrff lleol eraill sicrhau bod ardaloedd lleol yn elwa cymaint â phosibl. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr - Menter Môn fod trafodaethau wedi eu cynnal yn ddiweddar gyda'r Cyngor i roi strwythur ar waith i wella cydweithio a bydd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng Uwch Swyddogion Menter Môn a'r Cyngor. Er y derbynnir bod cydweithio rhwng Uwch Swyddogion Menter Môn ac Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, dywedodd fod angen ymgysylltu ag aelodau etholedig eraill i'w hysbysu am fanteision cymunedol. Cytunodd y Prif Weithredwr fod angen cydweithio'n well, a bydd fframwaith ymgysylltu

blynyddol yn cael ei drefnu o fewn wardiau etholiadol i hysbysu'r aelodau etholedig ynghylch y cyfleoedd sy'n digwydd o fewn y wardiau hyn. Nododd y bydd y broses gydweithio hon yn sicrhau y gall aelodau etholedig hysbysu eu cymunedau lleol a Chynghorau Tref / Cymuned.

- Fel yr amlygwyd yn yr adroddiad sefydlwyd Menter Môn gan y Cyngor i gyflawni prosiectau ar yr Ynys. Gofynnwyd pa sicrwydd sydd yna fod ffocws Menter Môn ar waith a darpariaeth ar yr Ynys a beth arall y gellir ei gyflawni o ran ymgysylltu pe bai adnoddau ar gael. Mewn ymateb i hyn, dywedodd Mr Dafydd Gruffydd fod yr adroddiad yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan Fenter Môn. Dywedodd y rhagwelir y bydd prosiect Morlais yn cynhyrchu incwm er mwyn dibynnu llai ar gyllid grant a grantiau tymor byr. Fodd bynnag, pe bai gan Fenter Môn ffynhonnell debyg o gyllid, fel oedd ar gael ar y dechrau pan sefydlwyd y cwmni, gellid cyflawni mwy o brosiectau cymunedol. Codwyd cwestiynau pellach a fydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gallu darparu cyllid a oedd yn debyg i gyllid blaenorol yr UE. Mewn ymateb i hyn, dywedodd Mr Gruffydd fod yr ansicrwydd ynghylch yr adnoddau sydd ar gael yn golygu ei bod yn amhosibl darogan faint o gyllid fydd ar gael. Fodd bynnag, roedd o'r farn y gallai Llywodraeth y DU ddarparu cyllid tebyg i'r grantiau SPF a Ffyniant Bro neu y bydd estyniad i'r prosiectau presennol sy'n rhan o'r rhaglen.
- Gofynnwyd cwestiynau i ba raddau y mae digon o gydweithio gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned a chynghreiriau lleol. Mewn ymateb, dywedodd Mr Gruffydd fod trefn o ymgysylltu â gwahanol grwpiau ar draws yr Ynys ond pe bai mwy o gyllid ar gael gallai ymgysylltu a chydweithio i raddau helaethach. Drwy'r broses ymgysylltu flynyddol gydag aelodau lleol, y gobaith yw y bydd yn helpu i ddarparu gwybodaeth ac adborth i'r Cynghorau Tref a Chymuned ynghylch y gweithgareddau a'r cyfleoedd o fewn y cymunedau. Codwyd cwestiynau pellach gan holi a yw'r gwaith a wneir gan Fenter Môn yn gorgyffwrdd â gwaith Medrwn Môn. Mewn ymateb, dywedodd Mr Gruffydd fod yna berthynas waith dda rhwng Menter Môn a Medrwn Môn. Dywedodd fod Ynys Môn yn ffodus bod ganddyn nhw amryw o gynghreiriau sy'n cefnogi cymunedau'r Ynys.
- Cyfeiriwyd at y parciau solar mawr arfaethedig yng Ngogledd yr Ynys. Codwyd cwestiynau ynghylch sut y gall Menter Môn barchu barn y rhai o blaid ac yn erbyn y cynigion a bod â diddordeb yn y datblygiad. Mewn ymateb, dywedodd Mr Gruffydd nad oes gan Fenter Môn ddiddordeb busnes yn y datblygiad ac na fydd yn elwa o'r datblygiad arfaethedig hwn yng Ngogledd yr Ynys. Dywedodd mai rôl Menter Môn yw hwyluso'r broses a sicrhau bod y cymunedau lleol yn elwa o ddatblygiadau o'r fath. Er na fyddai Menter Môn yn elwa'n ariannol o'r parciau solar arfaethedig, holwyd oni fyddai Grŵp Cymunedol yn fwy buddiol i sicrhau bod y gymuned leol yn elwa o'r datblygiadau. Dywedodd Mr Gruffydd fod Menter Môn wedi sefydlu fforwm 'Ynni Cymunedol Môn' sy'n cael ei weinyddu gan Fenter Môn. Bydd gan 'Ynni Cymunedol Môn' ei 'gylch gorchwyl' ei hun ac mae cynrychiolwyr o'r Cyngor Sir ar y fforwm. Nododd y bydd pwyllgorau lleol yn cael eu sefydlu o fewn y cymunedau a fydd yn cael eu heffeithio gan y cynigion a bydd y cyrff hyn yn penderfynu sut i ddsbarthu'r arian a grëir o'r parciau solar arfaethedig hyn er budd y cymunedau lleol. Codwyd cwestiynau pellach ynghylch sut y bydd Menter Môn yn gallu ariannu'r gwaith sydd ei angen i weinyddu prosiect mor fawr. Mewn ymateb, dywedodd Mr Gruffydd fod gan Menter Môn ei phrosiectau ynni ei hun, a rhagwelir y bydd rhaglen Morlais yn creu incwm yn y tair blynedd nesaf er mwyn gallu ariannu 'Ynni Cymunedol Môn'.

- Codwyd cwestiynau ynghylch yr heriau i sicrhau bod y sefydliad yn gynaliadwy oherwydd ansicrwydd ynghylch cyllid cyhoeddus a grantiau tymor byr yn sgil Brexit. Mewn ymateb, dywedodd Mr Gruffydd fod Menter Môn yn parhau i wneud ceisiadau am grantiau o wahanol ffynonellau cyllid i sicrhau bod prosiectau cymunedol yn parhau.
- Codwyd cwestiynau ynghylch y budd y bydd yr Ynys yn ei gael gan brosiect Morlais a phrosiectau ynni eraill. Ymatebodd Mr Gruffydd mai rôl Menter Môn yw sicrhau bod budd lleol yn sgil y prosiectau ynni. Rhagwelir y bydd incwm sylweddol yn cael ei gynhyrchu o brosiect Morlais yn y 10 i 15 mlynedd nesaf. Wedi hynny, bydd angen penderfynu'n lleol sut i ddsbarthu'r incwm er budd y gymuned.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei bod yn amlwg bod cysylltiad agos rhwng yr Awdurdod a Menter Môn. Mae Menter Môn wedi'i sefydlu'n gadarn yn yr Ynys gyda phrosiectau llwyddiannus o fewn y cymunedau. Oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol mae'r cydweithio rhwng y Cyngor a Menter Môn yn bwysicach nag erioed i sicrhau bod prosiectau'n gallu cael eu cynnal mewn cymunedau ar draws yr Ynys.

Diolchodd y Pwyllgor i Mr Dafydd Gruffydd o Fenter Môn am y cyflwyniad.

GWEITHREDU: Nid oedd unrhyw gamau gweithredu ychwanegol.

5 ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE AR GYFER YNYS MÔN : 2023/2024

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Gwenno Jones, Mrs Sharon Vaughan a Mr Rhys Williams o GwE i'r cyfarfod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg mai dyma Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer Ynys Môn : 2023/2024. Dywedodd fod yr Awdurdod Lleol yn gweithio mewn partneriaeth agos ac effeithiol gyda GwE. GwE yw'r consortiwm addysg rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Dysgu Ynys Môn i wella ysgolion, rhannu arfer da, gwybodaeth a sgiliau, cynyddu cryfderau lleol a meithrin gallu. Mae'r adroddiadau'n amlygu prif gryfderau ysgolion Ynys Môn a'r blaenoriaethau y mae angen eu datblygu ymhellach. Nododd fod gwaith da wedi cael ei wneud o fewn yr ysgolion ynglŷn â'r Cwricwlwm i Gymru. At hyn, dywedodd fod adolygiad o rolau a chyfrifoldebau 'haen ganol' y system addysg yng Nghymru wedi ei gynnal rhwng Gorffennaf 2023 a Rhagfyr 2023. Edrychodd yr adolygiad ar rôl y consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, gyda'r nod o nodi'n glir eu rolau a'u cyfrifoldebau a'u ffrydiau cyllido. Nodwyd y bydd symud i ffwrdd o'r trefniadau presennol ar gyfer cymorth rhanbarthol i bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol a fydd yn caniatáu dulliau mwy lleol. Yn sgil hyn, bydd GwE yn cael ei ddiddymu fel gwasanaeth ar 1 Ebrill, 2025. Nododd fod cydweithio rhwng awdurdodau lleol i sicrhau bod y trefniadau trosiannol ar waith i sicrhau bod ysgolion yn cael cymorth addas yn ystod y cyfnod hwn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod cydweithio agos wedi bod rhwng yr Awdurdod Addysg a GwE. Mae'r Adroddiad Blynyddol gerbron y Pwyllgor hwn yn cyfeirio at y gwaith a wnaed yn 2023/2024.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif faterion canlynol:-

- Yn sgil y Fframwaith Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd newydd, beth yw'r dulliau gorau o graffu ar addysg. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mai partneriaeth yw hon o ran y Fframwaith ac mae Uwch Swyddog o'r Awdurdod Addysg wedi bod yn hwyluso a chadeirio'r bartneriaeth ranbarthol. Nododd nad yw'r Fframwaith Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd newydd yn statudol ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae gwaith da wedi dechrau yn ysgolion yr Awdurdod. Fel rhan o ganllawiau'r Fframwaith mae'r broses graffu'n dal i allu dal yr Aelod Portffolio Addysg yn atebol am safon yr addysg a'r gwasanaethau i gefnogi ysgolion o fewn yr awdurdod. At hyn, dywedodd fod Rhaglen Waith wedi'i sefydlu i asesu'r gwaith sy'n cael ei wneud o fewn ysgolion ac yr edrychir ar adroddiadau Estyn i sicrhau bod eu hargymhellion yn cael eu gweithredu. Credai fod sawl llwybr posibl i gynnal y broses graffu a dywedodd fod llywodraethwyr ysgol hefyd yn rhan o'r broses.
- Codwyd cwestiynau ynghylch a oedd yr Aelod Portffolio yn hyderus fod y trefniadau trosiannol yn eu lle i sicrhau bod ysgolion yn derbyn cefnogaeth addas pan ddaw GwE fel endid i ben. Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y bydd Swyddogion yn cael eu cyflogi gan yr Awdurdod i sicrhau bod ysgolion yn derbyn cefnogaeth addas. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid trefnu Sesiwn Briffio i Aelodau i hysbysu a diweddarau'r Aelodau Etholedig ynglŷn â'r broses ar gyfer y trefniadau trosiannol wrth i GwE fel endid ddod i ben. Cytunodd y Prif Weithredwr y gellid trefnu sesiwn briffio i Aelodau, a nododd y bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith maes o law gyda threfniadau craffu yn dilyn hynny.
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â beth yw'r prif heriau y mae ysgolion Ynys Môn a'r Gwasanaeth Dysgu yn eu hwynebu wrth symud ymlaen. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y gwaith a wneir yn ysgolion yr Awdurdod i'w ganmol. Cyfeiriodd yn benodol at heriau o fewn Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn enwedig materion ymddygiad a chynhwysiant. At hyn, dywedodd fod llawer o blant dros y blynyddoedd yn dechrau yn yr ysgol heb sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol a gydag anghenion arbennig. Mae niferoedd y dosbarthiadau'n cynyddu, ac mae adnoddau'n brin, sy'n gallu achosi pwysau ychwanegol ar ysgolion unigol. Mae nifer y gwaharddiadau o ysgolion yn cynyddu fel sy'n cael ei weld yn genedlaethol ynghyd â materion presenoldeb, yn enwedig ers y pandemig. Dywedodd fod newidiadau o fewn y systemau addysgol yn heriol gyda'r Cwricwlwm i Gymru newydd a bod ysgolion yn gorfod addasu i'r gofynion o fewn y cwricwlwm yma. Mae cadw a recriwtio staff yn her drwy Gymru, ond mae Ynys Môn yn ffodus ar hyn o bryd gyda nifer o staff yn ymgeisio am swyddi fel Penaethiaid. Ailadroddodd cynrychiolwyr GwE sylwadau'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a nodwyd y bydd pwysau hefyd ar ysgolion uwchradd gyda'r system raddio TGAU newydd yng Nghymru. Pwrpas y system newydd hon yw gwahaniaethu rhwng myfyrwyr o wahanol

alluoedd ac adlewyrchu'r cwricwlwm newydd. Mae disgwyl i'r system newydd gael ei chyflwyno yng Nghymru o 2025. Nodwyd hefyd fod Ysgolion Uwchradd wedi mynegi heriau o ran geirfa Gymraeg disgyblion. Dywedwyd bod system yn ei lle i fynd i'r afael â'r materion llythrennedd a geirfa o fewn yr ysgolion a'r gobaith oedd y byddai hon yn cael ei datblygu i fynd i'r afael â'r mater hwn a bod gan bob plentyn, pan fydd yn gadael yr ysgol, eirfa Gymraeg a Saesneg o'r safon ofynnol.

- Cyfeiriwyd at y cynnydd mewn problemau lechyd Meddwl ymhlith plant a phobl ifanc ledled Cymru sy'n dylanwadu ar eu haddysg. Codwyd cwestiynau ynghylch sut mae'r Cyngor hwn yn ymateb yn strategol i'r problemau lechyd Meddwl. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod anghysondeb mewn ysgolion o ran yr arferion sy'n Seiliedig ar Drawma. Nododd fod arferion sy'n Seiliedig ar Drawma yn flaenoriaeth o fewn y Gwasanaeth Dysgu ynghyd â helpu a chefnogi pob ysgol ar draws yr Ynys i weithredu mewn modd mwy cyson. Gwnaed sylwadau pellach fod gan Benaethiaid ac Athrawon bryderon ynghylch plant ifanc â phroblemau iechyd meddwl. Codwyd cwestiynau ynghylch y gefnogaeth ar gael gan yr Awdurdod Addysg Lleol i Benaethiaid ac Athrawon wrth fynd i'r afael â materion lechyd Meddwl gan blant. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod trafodaethau parhaus gyda Phenaethiaid ac Athrawon o ran materion lles plant o fewn ysgolion. Nododd fod sesiynau hyfforddi llesiant yn cael eu rhoi i Athrawon a staff cymorth. At hyn, dywedodd fod y cydweithio gydag ysgolion eraill yn bwysig i Benaethiaid a bod hwyluso'r cydweithio'n bwysig er mwyn trafod a chydweithio i rannu profiadau.
- Codwyd cwestiynau i ba raddau mae gwaith GwE wedi cael effaith ar safonau yn yr ysgolion ar Ynys Môn. Dywedodd cynrychiolwyr GwE mai'r staff addysgu sy'n cael yr effaith ar safonau ysgolion ac mai rôl GwE yw cefnogi a chynorthwyo'r staff addysgu i godi safonau. Cyfeiriwyd at y ffaith fod GwE wedi gallu cefnogi ysgolion yn dilyn adroddiadau Estyn lle nodwyd bod angen am ymyrraeth o fewn meysydd penodol.
- Cyfeiriwyd o fewn yr adroddiad at y ffaith fod sawl athro ym Môn wedi dilyn y Rhaglenni Arweinyddiaeth Cenedlaethol gan ddatblygu capasiti arweinyddiaeth ar draws yr Awdurdod ar bob lefel gydag ugain o athrawon wedi cyrraedd y safon i dderbyn cymhwyster CPCP. Gofynnwyd a fydd yr athrawon hyn yn symud ymlaen i fod yn Benaethiaid yn y dyfodol. Mewn ymateb, dywedodd y cynrychiolydd o GwE fod rhai o'r athrawon sy'n ennill cymhwyster CPCP yn dangos parodrwydd i symud ymlaen i wneud cais am rolau penaethiaid addysg. Nodwyd bod yr Awdurdod Lleol mewn sefyllfa dda gyda nifer o athrawon ifanc wedi'u penodi i rolau uwch.
- Cyfeiriwyd yn yr adroddiad fod GwE wedi bod yn parhau i gefnogi pob clwstwr i ddatblygu eu trefniadau pontio. Gyda rhieni yn penderfynu mynd â'u plant i ysgolion y tu allan i'r dalgylch gofynnwyd a oes modd cynnal y trefniadau pontio. Mewn ymateb, dywedodd y cynrychiolwyr o GwE fod y trefniadau pontio, yn flaenorol, yn cyfeirio at drosglwyddo disgyblion o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd gan ganiatáu i ddisgyblion ymweld ag ysgolion uwchradd. Mae'r trefniadau pontio o fewn ei gyd-destun ehangach yn golygu parhad addysg fel rhan o'r cwricwlwm a bod profiadau dysgu yn cyfuno o'r cynradd i'r ddarpariaeth uwchradd ac yn adeiladu ar y cynnydd y mae plant wedi'i wneud.

- Cyfeiriwyd at y ffaith fod disgyblion chweched dosbarth o'r 5 ysgol uwchradd ar yr Ynys yn gorfod teithio o un ysgol i'r llall neu i'r coleg lleol ar ôl dewis pwnc i astudio ar lefel uwch. Holwyd sut y gallai hyn barhau i fod yn gynaliadwy. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod yr Awdurdod Addysg Lleol wedi cyhoeddi ei Raglen Amlinellol Strategol yn ddiweddar sy'n cyfeirio at y ffaith y bydd trafodaethau'n cael eu cynnal o fewn y 3 blynedd nesaf ynghylch darpariaeth addysgol ôl-+16. Mae trafodaethau cychwynol eisoes wedi'i gynnal gyda'r ysgolion uwchradd ac mae data wedi'i gasglu ynghylch pa mor gynaliadwy yw'r ddarpariaeth bresennol ar hyn o bryd. Y flaenoriaeth yw sicrhau'r ddarpariaeth addysg fwyaf effeithiol ar gyfer disgyblion ôl-16 ac mae yna enghreifftiau lle caiff pynciau penodol eu haddysgu gyda dim ond un neu ddau o ddisgyblion wedi dewis y pwnc hwnnw. Nododd y bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal pan fydd yn briodol.

Gan y bydd darpariaeth GwE yn dod i ben ym mis Ebrill 2025 roedd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i ddymuno'r gorau i gynrychiolwyr GwE ar gyfer y dyfodol.

PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer Ynys Môn : 2023/2024.

GWEITHREDU : Bod Sesiwn Briffio Aelodau yn cael ei threfnu i hysbysu a diweddarau'r Aelodau Etholedig ynghylch y broses ar gyfer y trefniadau trosiannol wrth i GwE fel endid ddod i ben.

6 PANEL SGRIWTINI ADDYSG : ADRODDIAD CYNNYDD

Dywedodd Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg, y Cynghorydd Gwilym O Jones mai hwn yw pedwerydd adroddiad cynnydd y Panel sy'n cynnwys y cyfnod rhwng Chwefror a Hydref, 2024. Nododd fod y Panel wedi cyfarfod bum gwaith yn ystod y cyfnod hwn ac wedi ystyried y materion canlynol: :-

- Canllawiau Gwella Ysgolion : Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd (Llywodraeth Cymru);
- Y Gymraeg;
- Mesur Effaith Arweinyddiaeth;
- Arolygiadau Estyn – diweddariad Llywodraeth Cymru;
- Yr Amgylchedd Digidol mewn Ysgolion;
- Adroddiad Blynyddol GwE Môn : 2023/2024;
- Ysgolion mewn Categori, Arolwg dilynol gan Estyn neu'n Derbyn Cymorth Ychwanegol
- Rhaglen waith y Panel Sgriwtini ar gyfer y cyfnod Ebrill – Hydref, 2024.

Dywedodd y Cynghorydd Euryn Morris ei fod yn gwerthfawrogi bod adroddiad y Panel Sgriwtini Addysg yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn a nododd nad oedd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol na'r Panel Sgriwtini Cyllid yn adrodd ar y gwaith a wnaed. Credai ei bod yn bwysig bod y Paneli Sgriwtini hyn yn adrodd ar eu gwaith fel bod aelodau etholedig eraill, nad ydynt ar y Panelau hyn, yn ymwybodol o'r cynnydd a wnaed.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Panel Sgriwtini Cyllid yn adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Nododd y byddai'n codi'r mater yn y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yn ei gyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod diwethaf o ran gwaith y Panel Sgriwtini Addysg.

GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.

7 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2024/2025

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn nodi Blaenraglen Waith ddangosol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2024/2025 i'w ystyried.

PENDERFYNWYD:-

- Cytuno ar y fersiwn bresennol o'r blaenraglen waith ar gyfer 2024/2025;
- Nodi'r cynnydd hyd yma wrth weithredu ar y blaenraglen waith.

**CYNGHORYDD DYLAN REES
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MAN <u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>	
Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Dyddiad:	13/11/2024
Pwnc:	Adroddiad Archwilio Cymru Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru.
Pwrpas yr Adroddiad:	Craffu ar yr Adroddiad Archwilio Cymru a'r argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad mewn perthynas â gofal cymdeithasol oedolion.
Cadeirydd Sgriwtini:	Cynghorydd Dylan Rees
Aelod(au) Portffolio:	Cynghorydd Alun Roberts
Pennaeth Gwasanaeth:	Fôn Roberts Arwel Wyn Owen
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Arwel Wyn Owen 01248 752744 ArwelOwen3@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Yn berthnasol i'r holl aelodau etholedig

1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

A1. Craffu ar yr Adroddiad Archwilio Cymru a'r argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad mewn perthynas a'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol a Gofal Cymdeithasol Oedolion.

2 – Cyswllt gyda Chynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae Cynllun y Cyngor 2023-2028, yn cadarnhau ymrwymiad i ofal cymdeithasol a llesiant.

Mae cyd weithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd fel partner allweddol yn greiddiol i ddarparu gwasanaeth da i drigolion Ynys Môn ac yn greiddiol i gwrdd ag amcan y

Cyngor i 'roi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir'.

Mae adroddiad Archwilio Cymru yn cynnig argymhellion er gwella profiad trigolion Rhanbarth Gogledd Cymru mewn perthynas â gofal cymdeithasol a'r berthynas rhwng Gofal Cymdeithasol Oedolion a'r Gwasanaeth Iechyd.

3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-

3.1 Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

3.3 Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

3.4 Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

[ffocws ar lesiant]

3.6 Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

- 1.) Pa brosesau monitro sy'n bodoli o fewn Archwilio Cymru i sicrhau bod yr argymhellion a osodwyd yn cael eu bodloni?
- 2.) O ran oedi wrth ryddhau o'r ysbyty, sut mae Rhanbarth Gogledd Cymru yn cymharu â Rhanbarthau eraill ar lefel Genedlaethol?
- 3.) Gyda 10 o'r 16 argymhelliad gan Archwilio Cymru yn gofyn am ymdrechion ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Awdurdod Lleol, sut y bydd Archwilio Cymru yn monitro ac yn dogfennu effeithiolrwydd y cydweithio hwn?

4.) I ba raddau all Archwilio Cymru nodi a rhannu enghreifftiau o arferion gwaith da sy'n dangos gweithio effeithiol rhwng Byrddau Iechyd eraill ac Awdurdodau Lleol, a allai gynorthwyo i gyflawni'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad i fynd i'r afael â bylchau allweddol yng nghapasiti'r Gwasanaeth?

5 – Cefndir / Cyd-destun

Unwaith yr ystyrir bod claf yn ddigon iach yn feddygol neu'n glinigol i adael yr ysbyty (y cyfeirir ato hefyd fel ffit yn feddygol neu ffit yn glinigol) mae rhyddhau'r claf hwnnw'n amserol i'r lleoliad cywir ar gyfer ei anghenion parhaus yn allweddol. Mae symud cleifion yn amserol, yn effeithiol ac yn effeithlon allan o leoliad ysbyty aciwt yn dwyn manteision pwysig i ofal a phrofiad cleifion yn ogystal ag i'r modd y defnyddir adnoddau'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol ac yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r Awdurdod Lleol.

Pan fo'r broses ryddhau'n cymryd yn hwy nag y dylai gall fod goblygiadau sylweddol i'r claf o ran ei adferiad, ei adsefydliad a'i annibyniaeth. Bydd achosion o oedi cyn rhyddhau hefyd yn dwyn goblygiadau ar gyfer cleifion eraill sy'n dod i mewn i'r system gofal brys ac argyfwng y mae arnynt angen gwely mewn ysbyty. Mae "llif" cleifion gwael yn creu tagfeydd yn y system sy'n cyfrannu at broblemau tra hysbys megis adrannau achosion brys gorlawn ac anallu i sicrhau bod cleifion yn cael eu trosglwyddo'n amserol o ofal criwiau ambiwlansys.

Mi fydd Archwilio Cymru hefyd yn archwilio'r trefniadau i helpu i reoli'r galw am ofal brys ac argyfwng, ac i gyfeirio cleifion at y lleoliad gofal sydd fwyaf priodol i'w hanghenion. Byddent yn adrodd ar wahân ar ganfyddiadau'r gwaith hwnnw yn 2024.

Crynodeb o Argymhellion yr Adroddiad:

1. Gwella hyfforddiant a chanllawiau.
2. Gwella'r modd y cydymffurfir â pholisïau a chanllawiau.
3. Sicrhau diogelwch cleifion wrth iddynt aros am becynnau gofal.
4. Gwella ansawdd gwybodaeth a'r modd y caiff ei rhannu.
5. Mynd i'r afael â bylchau allweddol mewn capasiti.
6. Cynyddu defnydd o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i'r eithaf.
7. Gwella goruchwyliaeth ac effaith.
8. Gwreiddio gwersi o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion.

Mae manylion pellach ynglŷn â chefnidir yr adroddiad a sail yr argymhellion wedi'i cynnwys yn yr adroddiad, Atodiad 1.

6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Dim yn berthnasol

6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)

Dim yn berthnasol

6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Dim yn berthnasol

7 – Goblygiadau Ariannol

Dim wedi eu hadnabod ar y pwynt yma.

8 – Atodiadau

**Atodiad 1 - Adroddiad Archwilio Cymru/ Gofal Brys ac Argyfwng:
Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru**

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

Dim

Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4081A2024

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020. Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti, lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn	4
Negeseuon allweddol	5
Argymhellion	6

Adroddiad manwl

Beth yw maint yr her?	10
Beth sy'n effeithio ar lif effeithiol ac amserol cleifion allan o'r ysbyty?	17
Pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd?	27
Beth yn fwy ellir ei wneud?	33

Atodiadau

Atodiad 1 – dulliau archwilio	36
Atodiad 2 – rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion	38
Atodiad 3 – perfformiad gofal brys ac argyfwng	42
Atodiad 4 – arosiadau am asesiadau gofal cymdeithasol a phecynnau gofal	47
Atodiad 5 – ymateb sefydliadol ar y cyd i'r argymhellion archwilio	50

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 1 Unwaith yr ystyrir bod claf yn ddigon iach yn feddygol neu'n glinigol i adael yr ysbyty (y cyfeirir ato hefyd fel ffit yn feddygol neu ffit yn glinigol) mae rhyddhau'r claf hwnnw'n amserol i'r lleoliad cywir ar gyfer ei anghenion parhaus yn allweddol. Mae symud cleifion yn amserol, yn effeithiol ac yn effeithlon allan o leoliad ysbyty aciwt yn dwyn manteision pwysig i ofal a phrofiad cleifion yn ogystal ag i'r modd y defnyddir adnoddau'r GIG.
- 2 Pan fo'r broses ryddhau'n cymryd yn hwy nag y dylai gall fod goblygiadau sylweddol i'r claf o ran ei adferiad, ei adsefydliad a'i annibyniaeth. Bydd achosion o oedi cyn rhyddhau hefyd yn dwyn goblygiadau ar gyfer cleifion eraill sy'n dod i mewn i'r system gofal brys ac argyfwng¹ y mae arnynt angen gwely mewn ysbyty. Mae "llif" cleifion gwael yn creu tagfeydd yn y system sy'n cyfrannu at broblemau tra hysbys megis adrannau achosion brys gorlawn ac anallu i sicrhau bod cleifion yn cael eu trosglwyddo'n amserol o ofal criwiau ambiwlansys.
- 3 Yn wreiddiol roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys gwaith yn ei gynlluniau archwilio lleol yn 2021 i archwilio materion system gyfan sy'n effeithio ar wasanaethau gofal brys ac argyfwng, gan gynnwys rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Fe arweiniodd pandemig COVID-19 at ohirio'r gwaith hwn a'i gynnwys drachefn yng nghynlluniau archwilio 2023. Mae ein gwaith wedi ceisio archwilio a oes gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol drefniadau effeithiol i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn modd amserol. Caiff y dull a fabwysiadwy gennym i wneud ein gwaith ei ddisgrifio yn **Atodiad 1**.
- 4 Mae'r gwaith hwn yn rhan o raglen ehangach o waith y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei chyflawni ar hyn o bryd mewn perthynas â gwasanaethau gofal brys ac argyfwng yng Nghymru. Rydym hefyd yn archwilio'r trefniadau i helpu i reoli'r galw am ofal brys ac argyfwng, ac i gyfeirio cleifion at y lleoliad gofal sydd fwyaf priodol i'w hanghenion. Byddwn yn adrodd ar wahân ar ganfyddiadau'r gwaith hwnnw yn 2024.
- 5 Mae gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ar ofal brys ac argyfwng wedi'i fwriadu i helpu i gyflawni ei ddyletswyddau statudol. Yn benodol, mae'r gwaith hwn wedi'i fwriadu i argyhoeddi'r Archwilydd Cyffredinol bod gan gyrrff y GIG ac awdurdodau lleol drefniadau priodol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, fel sy'n ofynnol yn ôl adrannau 17 a 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004.

¹ Mae gofal brys ac argyfwng yn disgrifio unrhyw ofal heb ei drefnu, brys ac argyfwng a ddarperir gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r system gofal heb ei drefnu'n gymhleth gyda nifer o sefydliadau'n rhan o ddarparu gwasanaethau ac mae'n ymdrin â phobl ag afiechyd aciwt, sy'n agored i niwed ac mewn gofid y mae arnynt angen cymorth brys.

- 6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o'r trefniadau i ategu llif effeithiol allan o'r ysbyty yn rhanbarth Gogledd Cymru (y rhanbarth). Mae'r rhanbarth yn cwmpasu:
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd);
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
 - Cyngor Sir Ddinbych;
 - Cyngor Sir y Fflint;
 - Cyngor Gwynedd;
 - Cyngor Ynys Môn; a
 - Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- 7 Wrth wneud y gwaith hwn, rydym hefyd wedi ystyried cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd yn erbyn argymhellion blaenorol a wnaed yn ein [hadroddiad yn 2017 ar gynllunio i ryddhau cleifion](#). Mae ein canfyddiadau o'r gwaith hwn wedi'u nodi mewn adroddiad ar wahân i'r Bwrdd Iechyd.

Negeseuon allweddol

- 8 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: **er bod partneriaid yn deall llif cleifion allan o'r ysbyty ac yn dangos ymrwymiad i'w wella, mae perfformiad yn dal i fod yn her eithriadol gydag effeithiau anffafriol i brofiad a gofal cleifion. Rhaid i bartneriaid barhau i weithio'n unigol ac yn gydweithredol i bennu a gweithredu canllawiau eglur, lliniaru'r heriau a achosir gan lai o gapasiti a gofal mwy cymhleth, a sicrhau bod effaith gweithgareddau'n cael ei monitro, ei herio a'i chynyddu'n barhaus.**
- 9 Mae maint yr oedi cyn rhyddhau cleifion yng Ngogledd Cymru wedi tyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, a rhwng mis Ebrill 2023 a mis Chwefror 2024, bob mis ar gyfartaledd, roedd 334 o gleifion a oedd yn ffit yn feddygol y bu oedi cyn eu rhyddhau, a chymhlethdod asesiadau oedd y prif achos dros yr oedi. Ar gyfer y flwyddyn hyd yma, hyd at a chan gynnwys mis Chwefror 2024, roedd cyfanswm y dyddiau gwely a gollwyd i oedi cyn rhyddhau yn 71,871 sy'n gyferth â chost blwyddyn lawn o £39.202 miliwn. Mae'r effaith ganlyniadol ar lif cleifion mewn ysbytai a'r system gofal brys ac argyfwng yn sylweddol, gydag amseroedd aros mewn adrannau achosion brys a'r amser a gymerir i drosglwyddo o ambiwlansys ymhell islaw targedau cenedlaethol. Ym mis Chwefror 2024, collwyd dros 8,000 o oriau ambiwlans oherwydd oedi cyn trosglwyddo, ac roedd hyd cyfartalog arosiadau yn adrannau achosion brys y Bwrdd Iechyd oddeutu 8.5 awr. Mae anawsterau gyda rhyddhau hefyd yn effeithio ar allu sefydliadau partner i ddiwallu anghenion rhai cleifion yn effeithiol, yn enwedig yng ngorllewin y rhanbarth lle mae cyfran sylweddol o gleifion yn cael eu lleoli mewn llety dros dro ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty.
- 10 Mae nifer o ffactorau'n cyfrannu at achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion. Mae gan lawer o gleifion, yn enwedig pobl oedrannus â phroblemau iechyd meddwl,

anghenion cymhleth nad yw'n rhwydd eu diwallu â'r gwasanaethau sydd ar gael. Ceir hefyd heriau o ran y gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol, yn enwedig yn ardaloedd Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd. Canfu ein gwaith nifer o wendidau mewn ymarfer a dogfennaeth sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion ac angen i roi'r model Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu (D2RA) ar waith fel a fwrriadwyd. Mae angen gwneud gwaith hefyd i ymdrin â diffyg hyfforddiant a chanllawiau y cytunwyd arnynt ar y cyd ar gynllunio ar gyfer rhyddhau i staff iechyd a gofal cymdeithasol, ac i oresgyn anawsterau o ran cyfathrebu a rhannu gwybodaeth ar draws ffiniau sefydliadol.

- 11 Mae gwella llif cleifion yn nodwedd allweddol ar gynlluniau ar draws y partneriaid sy'n cyd-fynd â chwe nod Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal brys ac argyfwng². Mae partneriaid yn cydweithio, yn strategol ac yn weithredol, i wella llif cleifion; fodd bynnag, mae pwysau ar y system yn creu diwylliant di-fudd o fwrw bai. Mae adnoddau ariannol yn cael eu cymhwyso i wella'r modd y cynllunnir ar gyfer rhyddhau cleifion, er bod cyfyngiadau ariannol mewn cyrff sy'n bartneriaid yn arwain at dreiglo cynlluniau'n barhaus ac yn y pen draw yn peidio â gadael rhyw lawer o le ar gyfer syniadau newydd. Er bod y sefyllfa'n cael ei monitro'n rheolaidd mewn sefydliadau unigol, nid oes gan bartneriaid drefniadau i oruchwyllo llif cleifion ar draws y system iechyd a gofal gyfan. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i archwilio datrysiadau system gyfan, gwreiddio gwersi a chanolbwyntio ar effaith gweithgarwch mewn adroddiadau ar berfformiad a chynnydd.
- 12 Mae angen i bartneriaid hefyd gynyddu i'r eithaf y defnydd o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF), gwella goruchwyliaeth ac effaith y mentrau a gyflawnir i roi cymorth i ryddhau cleifion yn amserol ac yn effeithiol, a sicrhau bod gwersi o ddigwyddiadau'n cael eu rhoi ar waith mewn ymarfer rheolaidd.
- 13 Gyda'i gilydd, mae'r uchod yn dangos, er gwaethaf gwaith caled a bwriadau da ar ran sefydliadau yn y rhanbarth, bod cryn dipyn i'w wneud o hyd i wella'r modd y cynllunnir ar gyfer rhyddhau cleifion a gwella prosesau rhyddhau cleifion. Mae angen gweithredu parhaus ar draws ystod o feysydd i sicrhau'r gwelliannau sy'n angenrheidiol i gleifion, eu teuluoedd a'r system gofal brys ac argyfwng ehangach.

Argymhellion

- 14 Manylir ar yr argymhellion sy'n codi o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Bydd yr ymateb sefydliadol ar y cyd i'r argymhellion hyn gan y cyrff statudol a gafodd eu cynnwys yn yr adolygiad hwn yn cael ei grynhoi yn **Atodiad 4** unwaith y bydd yr argymhellion wedi cael eu hystyried gan y pwyllgorau perthnasol.

² Ceir rhagor o wybodaeth am chwe nod Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal brys ac argyfwng trwy <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diwedddariad-ar-y-rhaglen-chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-gofal-mewn-argyfwng>

Arddangosyn 1: argymhellion

Argymhellion

Gwella hyfforddiant a chanllawiau

Arddangosyn 22: canran y trosglwyddiadau o ambiwlansys o fewn 15 munud mewn adran achosion brys fawr – targed cenedlaethol o 100%




Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Arddangosyn 23: canran y trosglwyddiadau o ambiwlansys dros 1 awr – targed cenedlaethol o sero




Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwllans

Arddangosyn 24: cyfanswm yr oriau a gollwyd yn dilyn hysbysu i drosglwyddiad dros 15 munud




Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwllans

Arddangosyn 25: amser canolrifol (munudau) rhwng cyrraedd mewn adran achosion brys a brysbennu gan glinigydd) – targed cenedlaethol o ostyngiad dros 12 mis




Ffynhonnell: StatsCymru

Arddangosyn 26: Amser canolrifol (munudau) rhwng cyrraedd mewn adran achosion brys ac asesiad gan uwch benderfynydd clinigol – targed cenedlaethol o ostyngiad dros 12 mis




Ffynhonnell: StatsCymru

Arddangosyn 27: Canran y cleifion sy'n treulio llai na phedair awr mewn adran achosion brys fawr – targed cenedlaethol o 95%




Ffynhonnell: StatsCymru

Arddangosyn 28: Canran y cleifion sy'n treulio llai na 12 awr mewn adran achosion brys fawr – targed cenedlaethol o 100%



Ffynhonnell: StatsCymru

Arddangosyn 29: Canran o gyfanswm y dyddiau gwely argyfwng a gronnwyd gan bobl â hyd arhosiad o fwy na 21 diwrnod – targed cenedlaethol o ostyngiad dros 12 mis




Ffynhonnell: StatsCymru

Atodiad 4

Arosiadau am asemiadau gofal cymdeithasol a pheccynau gofal


Mae'r arddangosion canlynol yn nodi perfformiad y rhanbarth gydag arosiadau am asemiad gofal cymdeithasol ac i gael ystod o becynnau gofal o'i gymharu â'r sefyllfa ledled Cymru ers mis Tachwedd 2022.

Arddangosyn 30: nifer yr oedolion sy'n aros am asemiad gofal cymdeithasol (am bob 100,000 o'r boblogaeth)




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Arddangosyn 31: nifer yr oedolion sy'n aros am ofal cartref (am bob 100,000 o'r boblogaeth)




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Arddangosyn 32: nifer yr oedolion sy'n aros am wasanaeth ailalluogi (am bob 100,000 o'r boblogaeth)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Arddangosyn 33: nifer yr oedolion sy'n aros am lety cartref gofal hirdymor (am bob 100,000 o'r boblogaeth)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Atodiad 5

Ymateb sefydliadol ar y cyd i'r argymhellion archwilio

Arddangosyn 34: ymateb sefydliadol ar y cyd

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Gwella hyfforddiant a chanllawiau</p> <p>A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd, gan weithio gydag awdurdodau lleol, ddatblygu canllawiau y cytunwyd arnynt ar y cyd i ddarparu eglurder i'r holl staff ynglŷn â sut y dylai'r broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion weithio ledled y rhanbarth. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023 a dylent nodi rolau a chyfrifoldebau, a disgwyliau, sydd wedi'u diffinio'n</p>	<p>Is-ranbarthol:</p> <p>Bydd y ddogfen ganllaw genedlaethol yn cael ei defnyddio i greu crynodeb o'r ystyriaethau allweddol. Bydd y crynodeb hwn yn darparu cyfeiriad at y ddogfen lawn ar-lein ac yn cyfeirio at gymorth a chanllawiau ychwanegol sydd ar gael ar gyfer amgylchiadau penodol megis pan fo Penderfyniadau Budd Pennaf yn ofynnol sydd wedi bod yn ffocws ar gyfer gweithgarwch diweddar. Bydd y canllawiau'n canolbwyntio ar y rheidrydd i weithio'n effeithiol trwy Dimau Amlddisgyblaethol ac ar sail amlasiantaeth ac yn ymgorffori cyfeiriadau i roi cymorth i osgoi prosesau rhyddhau niweidiol.</p>	<p>Gorffennaf 2024</p>	<p>Rheolwr Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol, Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain.</p>

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>glir gan gynnwys pryd y dylid gwneud atgyfeiriadau ar gyfer gofal parhaus.</p>	<p>Yn yr ardal ganolog bydd Cyngorau Sir Ddinbych, Conwy a Sir y Fflint a BIPBC yn cydweithio i ddatblygu canllawiau sy'n ymlynu wrth y canllawiau cenedlaethol, yn unol â Llif delfrydol cleifion. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i unrhyw ganllawiau presennol a all fod ar waith ar draws BIPBC i gefnogi cysondeb ar draws y Bwrdd Iechyd o ran adrodd ar oedi gyda llwybrau gofal..</p> <p>Bydd Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd a Gorllewin BIPBC yn datblygu canllawiau o'r fath ymhellach gan ymlynu wrth y canllawiau cenedlaethol, yn dilyn ystyried canllawiau presennol a all fod ar waith mewn rhannau eraill o ogledd Cymru. Gan adeiladu ar drefniadau presennol bydd yr Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn rhannu'r holl ganllawiau newydd ar drosglwyddo gofal o ysbytai i'r cartref. Bydd hyn yn rhan annatod o'r datblygiad mewn ymateb i A1 uchod.</p>		

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod prosesau ar waith i gyfleu canllawiau ynghylch cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion i'r holl staff perthnasol mewn gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio dros dro, gyda hynny'n cael ei ategu gan raglen barhaus o hyfforddiant diweddarau a hyfforddiant sefydlu i staff newydd.</p>	<p>Is-ranbarthol: Bydd dogfen ganllaw ardal y Dwyrain y cyfeirir ati mewn perthynas ag A1:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn cael ei dosbarthu i'r holl weithwyr cymdeithasol sy'n rhoi cymorth i gynllunio ar gyfer rhyddhau yn Wrecsam a Sir y Fflint • Yn cael ei hymgorffori mewn trafodaethau dychwelyd i'r gwaith, goruchwyliaeth a dulliau rheoli eraill i sicrhau bod gwybodaeth aelodau'r tîm yn seiliedig ar y canllawiau diweddaraf. • Bydd cyfeiriadau at y canllawiau mewn gwybodaeth sefydlu a bwletinau i staff a dogfennau tebyg. • Bydd arweinwyr Gartref yn Gyntaf yn rhoi negeseuon atgoffa rheolaidd i'r holl aelodau allweddol o staff yn ysbytai Ardal y Dwyrain sy'n cefnogi ac yn arwain ar gynllunio ar gyfer rhyddhau. 	<p>O fis Awst / Medi 2024</p>	<p>Uwch Reolwr Oedolion CSyFf, Penaethiaid Gwasanaethau Pobl Hŷn CBSW, Cyfarwyddwyr Cysylltiol, Gwasanaethau Cymunedol Dwyrain BIPBC</p>

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	<ul style="list-style-type: none"> Bydd cyfleoedd yn cael eu harchwilio i gynnwys y canllawiau yn y rhaglen hyfforddi i'r holl staff gan gynnwys timau ehangach megis Diogelu a Chomisiynu. <p>Gan adeiladu ar drefniadau presennol a'r rhai a nodwyd yn flaenorol, bydd yr Awdurdodau Lleol (Dwyrain, Canol a Gorllewin) a'r Bwrdd Iechyd yn rhannu'r holl ganllawiau newydd ar drosglwyddo gofal o ysbytai i'r cartref. Bydd hyn yn rhan annatod o'r datblygiad mewn ymateb i A1 uchod.</p>		
<p>Gwella'r modd y cydymffurfir â pholisïau a chanllawiau</p> <p>A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd wreiddio cylch archwilio rheolaidd i asesu effeithiolrwydd polisiâu a chanllawiau ynghylch rhyddhau cleifion a chysondeb o ran y modd y'u rhoddir</p>	<p>Bwrdd Iechyd:</p> <p>Mae polisi diwygiedig drafft BIPBC ar Ryddhau o'r Ysbyty wedi cael ei ddatblygu i ddisodli gofynion rhyddhau yn ystod Covid.</p> <p>Bydd y polisi drafft diwygiedig yn cael ei gyflwyno trwy broses lywodraethu'r Bwrdd Iechyd ar gyfer ei gymeradwyo,</p>	Medi 2024	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro – Cymorth Cartrefi Gofal a Chomisiynu GIP

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
ar waith, gan gynnwys cymhwyso D2RA.	<p>a bydd hyn yn cynnwys cyfnod ymgynghori ar wefan BIPBC a chymeradwyaeth gan bwyllgor perthnasol yn y Bwrdd lechyd.</p> <p>Mae dogfennaeth ategol arall gan gynnwys Canllawiau ar Ryddhau o Ddewis ac yn Gyndyn a rhyddhau dan Arweiniad Meini Prawf yn cael ei hadolygu hefyd fel rhan o'r adolygiad hwn o ddogfennau ryddhau.</p> <p>Fel rhan o'r polisi rhyddhau bydd cylch archwilio'n cael ei gytuno a'i roi ar waith</p>	Rhagfyr 2024	
A4 Dylai'r Bwrdd lechyd sefydlu rheolaethau i atal staff rhag ychwanegu cleifion at restrau aros lluosog, megis ar gyfer ailalluogi, pecynnau gofal cartref a gofal preswyl i hwyluso proses ryddhau gyflym, ni waeth beth fo'r angen. Bydd hyn yn	<p>Bwrdd lechyd:</p> <p>Fel rhan o'r cynllun Archwilio D2RA, Rheolwyr i sefydlu polisi trosfwaol ffurfiol neu Weithdrefn Weithredu Safonol i ategu rheolaeth weithredol a rheolaethau i atal cleifion ar restrau aros lluosog</p>	Rhagfyr 2024	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro – Cymorth Cartrefi Gofal a Chomisiynu GIP

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>sicrhau mai dim ond y rhai y mae arnynt angen y gwasanaethau sydd ar y rhestrau aros perthnasol.</p>			
<p>Sicrhau diogelwch cleifion wrth iddynt aros am becynnau gofal</p> <p>A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod prosesau ar waith i hysbysu gwasanaethau cymdeithasol cyn bod cleifion yn cael eu rhyddhau adref, lle y mae ar y cleifion hynny angen cymorth parhaus yn eu cartref eu hunain, a lle nad yw'r cymorth hwnnw yn ei le ar adeg eu rhyddhau.</p>	<p>Bwrdd Iechyd: Adolygu'r broses a sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn y Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Rhyddhau</p>	<p>Rhagfyr 2024</p>	<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro – Cymorth Cartrefi Gofal a Chomisiynu GIP</p>

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod mecanweithiau ar waith i fynd ati'n rheolaidd i fonitro cleifion sy'n cael eu rhyddhau adref heb ofal cymdeithasol parhaus wedi'i drefnu ac i uwchgyfeirio materion at y gwasanaeth priodol lle y bo angen.</p>	<p>Is-ranbarthol:</p> <p>Lle y bo'n briodol a lle y bo capasiti'n caniatáu, mae Gartref yn Gyntaf yn cefnogi cleifion ag angen aseddig am becyn gofal sy'n aros i becyn gofal a drefnwyd ddechrau i bontio'r bwloch</p> <p>Lle mae teulu/ffrindiau'n rhoi cymorth byrdymor neu lle mae cleifion yn hunanryddhau, darperir rhifau ffôn i hysbysu ynghylch anghenion sydd wedi dwysáu. Bydd gan yr holl bobl ag anghenion aseddig bwynt cyswllt unwaith y byddant gartref a byddant yn cael eu cefnogi cyn gynted ag y bydd capasiti ar gael.</p> <p>Os yw unigolion yn cael eu trosglwyddo adref o'r ysbyty heb asesiad a heb becyn gofal gofynnol, bydd yr Awdurdodau Lleol yn monitro'r sefyllfaoedd hynny. Bydd ffurflen rhyddhau anffafriol yn cael ei chwblhau lle y bo'n ofynnol i gefnogi Dysgu ar draws y gwasanaethau a thaith well ar gyfer cleifion a dylid croesgyfeirio at A16</p>	<p>Yn barhaus</p> <p>Mehefin 2024</p> <p>Yn barhaus</p>	<p>Pennaeth Nyrsio, Cymuned. Uwch Reolwr Oedolion Penaethiaid Gwasanaethau Pobl Hŷn</p>

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Gwella ansawdd gwybodaeth a'r modd y caiff ei rhannu</p> <p>A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod gan yr holl staff perthnasol ar draws pob sefydliad fynediad cyson at wybodaeth gyfoes am y gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned sydd o gymorth i ryddhau cleifion o'r ysbyty. Bydd hyn yn sicrhau nad yw cyfleoedd i ryddhau cleifion yn gynharach gyda chymorth gan wasanaethau y tu hwnt i ofal cymdeithasol yn cael eu colli.</p>	<p>Is-ranbarthol:</p> <p>Bydd Dewis fel y pwynt gwybodaeth canolog yn parhau i gael ei hyrwyddo ar draws pob sefydliad.</p> <p>Bydd canllawiau a ddatblygwyd mewn ymateb i A1 yn cyfeirio at y ffaith bod amrywiaeth eang o gymorth cymunedol ar adeg rhyddhau a ble i ganfod gwybodaeth – cyfeirio at Dewis</p> <p>Mae cynghorau sy'n gweithredu'n is-ranbarthol sy'n gweithredu gyda'r Bwrdd Iechyd yn rhannu gwybodaeth o'r fath yn rheolaidd trwy weithio integredig o fewn Pwyntiau Mynediad Sengl y Timau Adnoddau Cymunedol, ffit yn glinigol a hyd arhosiad a byddant yn parhau i wneud hynny.</p>	<p>Yn barhaus</p> <p>Gorffennaf 2024</p> <p>Yn barhaus</p>	<p>Cyfarwyddwyr Cysylltiol Gwasanaethau Cymunedol PBC a Phenaethiaid Gwasanaethau Pobl Hŷn ALLau</p>
<p>A8 Dylai'r Bwrdd Iechyd wella trefniadau cadw cofnodion trwy:</p>	<p>Bwrdd Iechyd:</p>	<p>Medi 2024</p>	<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro – Cymorth</p>


Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>a. sicrhau bod yr holl staff sy'n rhan o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion yn meddu ar ddealltwriaeth lawn am bwysigrwydd dogfennu gwybodaeth gynhwysfawr yn nodiadau achosion cleifion i roi cymorth i gynllunio'n effeithiol ar gyfer eu rhyddhau.</p> <p>b. sefydlu rhaglen o archwiliadau o nodiadau achosion sy'n canolbwyntio ar ansawdd trefniadau cadw cofnodion.</p>	<p>Fel a nodwyd yn A3, mae polisi diwygiedig drafft gan BIPBC ar Ryddhau o'r Ysbyty wedi cael ei ddatblygu i ddisodli'r gofynion rhyddhau yn ystod Covid.</p> <p>Bydd y polisi drafft diwygiedig yn cael ei gyflwyno trwy broses lywodraethu'r Bwrdd lechyd ar gyfer ei gymeradwyo, a bydd hyn yn cynnwys cyfnod ymgynghori ar wefan BIPBC a chymeradwyaeth gan bwyllgor perthnasol yn y Bwrdd lechyd.</p> <p>Mae dogfennaeth ategol arall gan gynnwys Canllawiau ar Ryddhau o Ddewis ac yn Gyndyn a rhyddhau dan Arweiniad Meini Prawf yn cael ei hadolygu hefyd fel rhan o'r adolygiad hwn o ddogfennau ryddhau.</p> <p>Fel rhan o'r polisi rhyddhau bydd cylch archwilio'n cael ei gytuno a'i roi ar waith</p>	Rhagfyr 2024	Cartrefi Gofal a Chomisiynu GIP

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>A9 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol roi ffyrdd ar waith y gellir rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol, gan gynnwys cyfleoedd i ddarparu mynediad ehangach at systemau sefydliadol ac, yn y pen draw, datrysiadau TG ar y cyd.</p>	<p>Is-ranbarthol:</p> <p>Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd eisoes gynllun peilot rhannu gwybodaeth ar waith sy'n disgwyl i gael ei werthuso.</p> <p>Mae gan awdurdodau lleol Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint a'r Bwrdd Iechyd Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ers rhoi'r Pwyntiau Mynediad Sengl ar waith</p> <p>Mae angen gwaith pellach i wella trefniadau rhannu gwybodaeth pan fo cleifion yn ymglyfwyno yn yr Adran Achosion Brys am nad yw systemau sefydliadol ar gael i bawb. Mae angen system rhannu gwybodaeth integredig i gefnogi hyn</p> <p>Bydd yr Ardal Ganolog yn ystyried sut y gellir ymgorffori hyn o fewn cwmpas y broses gaffael newydd, Cysylltu Gofal</p>	<p>Hydref 2024</p> <p>Hydref 2024</p>	<p>Penaethiaid Gwasanaethau i Bobl Hŷn Cyfarwyddwr Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd</p>

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	<p>Ceisio opsiynau i Gartref yn Gyntaf allu cael mynediad at System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru'r Cyngor yn y Dwyrain.</p> <p>Ailedrych ar amserlen y cyfarfodydd amlasiantaeth i wirio bod y pwyntiau cyswllt hynny'n cyflawni safbwynt cyffredin parthed diweddariadau ar gynllunio ar gyfer rhyddhau fel rhan o'r Adolygiad parhaus o Gartref yn Gyntaf yn y Dwyrain</p> <p>Ystyried sut y mae'r defnydd o STREAM yn cael ei ddiweddar'u'n gyson gyda photensial ar gyfer mynediad gan awdurdodau lleol</p> <p>Mynd ati'n weithredol i geisio ffyrdd o gynyddu mynediad gan awdurdodau lleol ar gyfer systemau a ddelir o fewn BIPBC.</p>		
<p>Mynd i'r afael â bylchau allweddol mewn capasiti</p>	<p>Is-ranbarthol:</p>	<p>Yn barhaus</p>	<p>Grŵp Arwain</p>

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>A10 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol gydweithio i ddatblygu datrysiadau ar y cyd i fynd i'r afael â bylchau allweddol yng nghapasiti gwasanaethau, yn enwedig gofal cartref a gwasanaethau ailalluogi a fyddai'n ei gwneud yn bosibl rhyddhau cleifion i'w cartref eu hunain yn fwy amserol.</p>	<p>Defnyddio Cyllid Ymhellach, Yn Gyflymach a chynllunio camau gweithredu</p> <p>Yn yr Ardal Ganolog, mae'r tîm D2RA wrth y drws blaen yn gweithio fel Aseswyr Dibynadwy i ymdrin â bylchau mewn capasiti asesu gan gydweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi gwaith parhaus o ran darpariaeth ailalluogi i gefnogi rhyddhau mwy amserol sy'n ofynnol ar gyfer pecynnau gofal gyda llwybrau asesiad Dibynadwy y cytunwyd arnynt</p> <p>Mae Bwrdd Gwasanaethau Integredig yr Ardal Ganolog yn ystyried datblygiad datrysiadau ar y cyd i ymdrin â bylchau allweddol yng nghapasiti gwasanaethau e.e. Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Dinbych.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu'r gwasanaeth Tuag Adref yn y Gorllewin i ddarparu gwasanaeth ailalluogi ac mae gofal cartref bellach yn cael ei gomisiynu ar y cyd gan Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd.</p>		

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Cynyddu defnydd o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i'r Eithaf</p> <p>A11 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol, trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh), ddangos sut y maent yn gweithio i fynd ati'n fwyfwy i brif ffrydio cynlluniau hirsefydlog a gyllidir trwy RIF yr ystyrir eu bod yn wasanaethau craidd.</p>	<p>Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:</p> <p>Mae'r BPRh a phartneriaid yn parhau i wneud cynnydd i brif-ffrydio cynlluniau hirsefydlog a gyllidir trwy RIF. Yn 2023/24 buddsoddiwyd £16.9m mewn cynlluniau wedi'u prif-ffrydio.</p>	Yn barhaus	Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol
<p>A12 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol, trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gytuno ar broses ar gyfer defnyddio unrhyw arian llithriant o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn y dyfodol, gan sicrhau y ceir</p>	<p>Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:</p> <p>Mae pwysigrwydd defnydd priodol o lithriant wedi cael ei gydnabod ac mewn ymateb fe ddatblygwyd y broses <i>'Hysbysu ynghylch Newid'</i>. Mae'r broses yn cael ei harchwilio a bydd yn cael ei hadolygu gan Grŵp Arwain y BPRh.</p>	Yn barhaus. Y broses i gael ei hadolygu yn hydref 2024	Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>gwerth a budd priodol o wariant o'r fath.</p>	 <p>RIF Change Notification Template</p>		
<p>A13 I helpu i oleuo prosesau penderfynu a thrafodaethau, dylai'r Bwrdd lechyd ac awdurdodau lleol:</p> <ol style="list-style-type: none"> a. sicrhau bod gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fynediad rheolaidd at ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n berthnasol i lif effeithiol ac amserol allan o'r 	<p>Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol: Data chwarterol ynghylch llif allan o'r ysbyty i gael ei gyflwyno i Grŵp Arwain y BPRh (gan gynnwys Cyfarwyddwyr CII)</p>	<p>Yn barhaus bob chwarter</p>	<p>Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol / Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro – Cymorth Cartrefi Gofal a Chomisiynu GIP</p>

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>ysbyty, gan gynnwys perfformiad gofal brys ac argyfwng o fewn y Bwrdd Iechyd a rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a phhecynnau gofal; a</p> <p>b. defnyddio trefniant gweithio'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu cofrestr risgiau ranbarthol sy'n dwyn ynghyd y risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi cyn rhyddhau.</p>	<p>Cofrestr risg sy'n gysylltiedig ag achosion o oedi cyn rhyddhau i gael ei chwblhau a'i chyflwyno i'r BPRh ddwywaith y flwyddyn</p>	<p>Hydref / Ebrill yn flynyddol</p>	<p>Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol</p>
<p>Gwella goruchwyliaeth ac effaith</p> <p>A14 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth sy'n nodi cynnydd gyda gweithgareddau a</p>	<p>Is-ranbarthol:</p>	<p>O fis Medi 2024 ymlaen</p>	<p>Cadeirydd y GCCC</p>

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>mentrau arwyddocaol a gyflawnir i roi cymorth i ryddhau cleifion yn effeithiol ac yn amserol ar gael yn rheolaidd ar lefel gorfforaethol ac ar lefel partneriaeth. Dylai hyn gynnwys gweithgareddau a mentrau a gyflawnir yn unigol ac ar y cyd, o fewn strwythur y BPRh a'r tu allan iddo, eu heffaith a sut y maent yn cyfrannu ar y cyd at ymdrin â'r heriau. Bydd hyn yn helpu i ddarparu sicrwydd bod adnoddau'n cael eu buddsoddi mewn modd sy'n cael yr effaith orau.</p>	<p>Y Grŵp Cynllunio Clwstwr Cyfan fydd y grŵp arwain i oruchwylio gweithgarwch mewn partneriaeth yn hyn o beth yn y Dwyrain.</p> <p>Yn ogystal â chylchredeg Dangosyddion Perfformiad Allweddol y tu allan i gyfarfodydd (e.e. Gwybodaeth o'r Cyfrifiad Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal), bydd eitem sefydlog yn cael ei hychwanegu at bob agenda i ystyried y sefyllfa gyfredol, tueddiadau ac ymatebion sy'n ofynnol.</p> <p>Bydd mecanweithiau adrodd rheolaidd a gwaith i fonitro perfformiad a chynnydd ar draws yr Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn parhau gyda ffocws ychwanegol yn y Gorllewin a'r Canol. Mae'r wybodaeth hon hefyd yn cael ei hystyried mewn cyfarfodydd cynllunio integredig strategol.</p> <p>Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r modd y dadansoddir data ac yr adroddir arno i ddarparu sicrwydd pellach ar draws trefniadau llywodraethu Awdurdodau Lleol.</p>		

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Gwreiddio gwersi o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion</p> <p>A15 Dylai'r Bwrdd lechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod mecanweithiau'n bodoli i roi gwersi ar waith o gamau gweithredu a gymerwyd i ymdrin ag achosion o oedi cyn rhyddhau, megis y Digwyddiadau Rhyddhau Amlasiantaeth (MADE), ac i gynnal goruchwyliaeth reolaidd i sicrhau bod y gwersi'n cael eu rhoi ar waith.</p>	<p>Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:</p> <p>I gyd-fynd ag A13, a'r gwaith cysylltiedig, bydd ystyriaeth reolaidd yn cael ei rhoi i ddigwyddiadau dysgu ac ymarferion rhannu arfer da rheolaidd.</p>	<p>Yn chwarterol – yn barhaus</p>	<p>Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol / Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro – Cymorth Cartrefi Gofal a Chomisiynu GIP</p>

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>A16 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau trefniadau uwchgyfeirio ar gyfer hysbysu ynghylch digwyddiadau anffafriol neu bryderon sy'n ymwneud â rhyddhau cleifion trwy:</p> <p>a. ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau anffafriol neu bryderon nad ymdriniwyd â hwy eisoes, gan gyfathrebu'n glir gyda'r awdurdod lleol perthnasol; a</p> <p>b. sicrhau bod dull cyson o hysbysu ynghylch digwyddiadau anffafriol a phryderon sy'n ymwneud â rhyddhau cleifion ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd.</p>	<p>Bwrdd Iechyd: Pob CII i sefydlu Grŵp Rhyddhau'n Anffafriol gyda Chylch Gorchwyl eglur</p> <p>Cynnal gweminarau Rhyddhau gyda Chartrefi Gofal ar draws pob CII i wella cyfathrebu a meithrin ymddiriedaeth rhwng y gwasanaeth Iechyd a Darparwyr</p>	Hydref 2024	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro – Cymorth Cartrefi Gofal a Chomisiynu GIP



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost:

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Craffu Partneriaethau Strategol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 13.11.24

Mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 2 Hydref 2024, mae'r adroddiad hwn wedi cael ei lunio ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac Adfywio ar 13 Tachwedd 2024, Craffu Partneriaethau Strategol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

1. Rhaglen Gwella'r Bwrdd Iechyd - trosolwg lefel uchel

Prif bwrpas y Bwrdd Iechyd yw gwasanaethu ei boblogaeth leol trwy ddarparu gwasanaethau clinigol o ansawdd uchel, sy'n ddiogel ac yn effeithiol ac sy'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, gan wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael.

Ers mynychu'r cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac Adfywio ym mis Tachwedd 2023, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau ar daith wella ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn nifer o feysydd. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiolrwydd y Bwrdd, diwylliant y sefydliad, ansawdd gwasanaethau, diogelwch cleifion, darpariaeth weithredol a dulliau rheoli ariannol. Er bod y gwelliannau hyn yn arwydd gwirioneddol o ymrwymiad y Bwrdd i welliant cynaliadwy ar gyfer pobl sy'n byw yng ngogledd Cymru, a bod Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru wedi nodi hyn, mae llawer i'w wneud o hyd.

Mae cryn bwyslais ar wella'r meysydd hynny sy'n peri'r pryder mwyaf i gleifion o ran perfformiad a chanlyniadau, yn benodol amseroedd aros ar gyfer gofal wedi'i gynllunio ac amseroedd aros mewn Adrannau Achosion Brys. Mae'r ddau faes hyn bellach yn Rhaglenni Pwysig yn cynnwys dulliau arolygu ar y lefel uchaf. Gallwn ymdrin â'r meysydd hyn yn fanylach pan fyddwn yn cyflwyno i'r Pwyllgor.

Mae un maes lle gwelwyd gwelliant ac ymrwymiad newydd yn ymwneud â gwaith mewn partneriaeth, ac mae Awdurdodau Lleol wedi bod yn bartneriaid allweddol o ran darparu gwasanaethau, yn enwedig i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed. Manylir ar nifer o enghreifftiau yn yr adroddiad hwn a'r gobaith yw y bydd hynny'n rhoi sicrwydd i aelodau ynghylch ein dull newydd o gydweithio.

Cyhoeddwyd adroddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru ynghylch cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran y blaenoriaethau uwchgyfeirio presennol yn ymwneud â mesurau arbennig ar 5 Tachwedd 2024. Y ffocws yn ystod y cyfnod hwn fu'r ymateb i'r materion difrifol a arweiniodd at ein huwchgyfeirio at fesurau arbennig, datblygu a gwella'r Bwrdd, ailennyn ymddiriedaeth a hyder, a gosod sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol.

2. Cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Ynys Môn

i) Diweddariad ar brosiect eiddilwch Caergybi, CRT a RIF:

Mae'r cynllun peilot Eiddilwch Cymunedol yn cael ei gynnal yng Nghaergybi ac mae'r ffocws ar leihau'r derbyniadau ysbyty i'r cleifion risg fawr sydd wedi cofrestru â'r ddau bractis meddyg teulu yn y dref.

Gan fod y galw o ran gofal i gleifion cymhleth yn cynyddu a chan fod adnoddau'n gyfyngedig, mae angen gwasanaeth mwy di-dor er mwyn galluogi unigolion i fyw eu bywydau fel y mynnant yn cynnwys gwasanaeth cydlynedig yn nes at y cartref. Cafodd cynllun peilot ei lansio ym mis Mehefin 2023 yn dilyn darn o waith a wnaed

gan PBC i ganfod y garfan o gleifion sydd mewn perygl mawr o gael eu derbyn i'r ysbyty. Dewiswyd Caergybi fel yr ardal beilot. Nod y prosiect yw'r gofal cywir gan yr unigolyn cywir a hynny ar yr adeg gywir ac yn y man cywir, trwy ddarparu gwasanaeth rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar gleifion yn hytrach nag un sy'n ymatebol sy'n diwallu anghenion iechyd ac anghenion cymdeithasol unigolion risg fawr yn eu cymuned eu hunain. Bydd integreiddio'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn effeithiol gyda'r economi gofal iechyd ehangach yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol posibl o'r sgiliau a'r adnoddau sydd ar gael. Bydd ymyrraeth gynnar; sydd ar gael trwy hwb ffrydio canolog, yn hwyluso llwybr di-dor a chydlynus i gynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth yn gyfannol, yn gwella annibyniaeth ac yn lleihau derbyniadau y gellid eu hosgoi ar gyfer cleifion mewnol.

Rhoddir ymateb cyflym ar ôl i achosion gael eu brysbennu gan gydlynedd clinigol ar gyfer y CRT. Mae sgrym ddyddiol y bydd aelod o bob disgyblaeth graidd yn ei mynychu'n gwella cyfathrebu ac effeithiolrwydd gofal. Mae Cynlluniau Gofal Uwch ac Asesiadau Geriatrig Cynhwysfawr yn cael eu cwblhau ar gyfer cleifion dethol.

Mae'r 12 mis cyntaf yn dangos gostyngiad o ran achosion yn yr Adran Achosion Brys (ED), trosglwyddiadau ambiwlans, derbyniadau i gleifion mewnol, a hyd arhosiad y garfan risg fawr yng Nghaergybi. Mae tîm adnoddau cymunedol (CRT) Caergybi ym Môn wedi dod yn dîm yng ngwir ystyr y gair, ac mae salwch a throsiant staff wedi lleihau yn yr ardal beilot.

ii) Datblygu Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHP) mewn Gofal Sylfaenol/Cymunedol

Rydym wedi recriwtio i wasanaeth Ychwanegol Adsefydlu AHP, mae'r gwasanaeth hwn ar gael ar draws IHC y Gorllewin ond bydd yn canolbwyntio ar Fôn yn y lle cyntaf. Mae i dîm gwasanaeth ychwanegol adsefydlu AHP dair ffrwd waith:

1. Meithrin ymagwedd glinigol. Mae tîm gwasanaeth ychwanegol adsefydlu AHP wedi datblygu dangosfwrdd data i ganfod pobl sy'n syrthio i batrwm defnyddio gofal iechyd fwyfwy. Bydd y tîm yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r unigolion hyn i gynllunio a chydlynu gofal, gyda'r nod o ystyried beth sy'n bwysig iddynt a sicrhau bod gofal yn diwallu eu hanghenion ar draws gwasanaethau.

Mae dull gwella ansawdd yn cael ei ddefnyddio gyda chylchoedd PDSA (*Plan – Do – Study* (deilliannau /canlyniadau) – *Act* (newid cynllun neu barhau). Bydd y dull clinigol yn esblygu dros amser a bydd yn cynnwys nifer o ddulliau newydd amrywiol yn y lle cyntaf, gan gysylltu ar draws y CRT a Gofal Sylfaenol ac ymgorffori asesiadau geriatrig cynhwysfawr.

2. Bydd tîm gwasanaeth ychwanegol adsefydlu AHP yn rhoi cymorth o ran datblygu gwasanaethau AHP, gan geisio rhoi cymorth gyda dulliau wedi'u rhannu. Mae'r gwaith cychwynnol wedi canolbwyntio ar ddatblygu cymwyseddau Cynorthwywyr Therapi Amlbroffesiynol a chydlynu ar draws cyfarfodydd clwstwr. Mae gwaith pellach yn debygol o gynnwys ymgorffori canlyniadau cleifion - mesur profiad cleifion yn ogystal â chanlyniad y gwasanaeth maent wedi'i dderbyn, wedi'i ategu trwy ddefnyddio fframwaith adsefydlu Llywodraeth Cymru i ategu datblygu a gwella gwasanaethau.

3. Datblygu strategol. Mae'r gwaith a gwblhawyd gan y tîm gwasanaeth ychwanegol adsefydlu AHP yn cael ei ddefnyddio i fod yn sail i drafodaethau strategol, yn enwedig gan ystyried cydlynu ar draws Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol a Therapiau a lle'r ydym yn rheoli pobl ag anghenion cymhleth. Rhagwelir y bydd y gwaith clinigol a'r canlyniadau'n gweithredu fel sbardun i fod yn sail i lwybrau clinigol ar gyfer pobl sydd ag anghenion cymhleth. Mae adolygiad profiad unigolion o ofal a gwblhawyd yn ystod proses ddatblygu llinell sylfaen timau gwasanaeth ychwanegol adsefydlu AHP wedi cael ei ddatblygu'n adroddiad er mwyn caniatáu ffocws ar y prif heriau yn y system.

Yna, mae'n bosibl y bydd datblygu prosesau cydlynu ar draws gwasanaethau'n cynorthwyo gwaith partneriaeth yn y dyfodol gyda phartneriaid allweddol y bwrdd lechyd, yn enwedig yr Awdurdod Lleol.

iii) Cynllun y Gaeaf 2024/25

Mae'r Bwrdd lechyd yn adolygu ei Gynllun ar gyfer y Gaeaf ar hyn o bryd, a fydd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol er mwyn sicrhau eu bod yn barod ar gyfer y tymor sydd i ddod. Mae'r maes cyntaf, Gofal Cymunedol a Sylfaenol, yn cynnwys mentrau fel y rhaglen eiddilwch, ymgyrch frechu rhag y ffliw, cynlluniau gofal sylfaenol i gynorthwyo cleifion risg fawr, a gwella gwasanaethau fferylliaeth gymunedol.

Mae'r ail faes, Drws Blaen, yn amlinellu cydweithio ag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST), gwasanaethau Gofal Brys ar yr Un Diwrnod (SDEC), ac ymdrechion i amddiffyn capasiti trawma.

Mae'r trydydd maes, Yn yr Ysbyty, yn cwmpasu cynlluniau isgyfeirio ar gyfer Cymunedau lechyd Integredig (IHC), llunio cynllun uwchgyfeirio gwasanaethau anadlol, datblygu dulliau rhyddhau cleifion o dan arweiniad meini prawf, a rhoi proses aros flaengar ar waith.

Yn olaf, bydd Rhyddhau i'r Gymuned yn canolbwyntio ar gydweithio gyda phartneriaid gofal cymdeithasol ac atgyfnerthu cymorth timau cymunedol i hwyluso rhyddhau cleifion yn ddiogel ac yn brydlon.

I hybu'r gwaith hwn, ymgwymerodd Ysbyty Gwynedd â phrosiect Ailbennu Cyfeiriad yn ystod yr wythnos yn dechrau 9 Medi. Y nod oedd ailbennu prosesau a llwybrau'n ymwneud â sut y dylai'r ysbyty gael ei gynnal er mwyn lleddfu pwysau a gwella effeithlonrwydd o ran y systemau gofal heb ei drefnu a gofal wedi'i gynllunio. Byddai hyn yn arwain at wella profiadau i gleifion a staff, gan arwain at effaith bositif ar ganlyniadau cleifion yn ddiweddarach. Byddai gwneud hyn yn caniatáu gwell llinell sylfaen er mwyn gwella gallu'r sefydliad i reoli pwysau'r gaeaf gymaint â phosibl.

Cafodd y Prosiect Ailbennu Cyfeiriad ei wneud trwy ddull penodol a chydweithredol ar draws y Gymuned lechyd Integredig ac yn benodol gydag Awdurdodau Lleol. Cafodd ei strwythuro o amgylch tri thîm pwrpasol: Ffocws Drws Blaen/Adran

Achosion Brys (ED), Rowndiau Bwrdd a llif yn yr ysbyty ei hun, a Rhyddhau/Hyd Arhosiad Hir, gyda phob un yn mynd i'r afael â meysydd penodol yn y llwybr gofal.

Hoffem nodi ar gof a chadw ac i ddiolch i Gyngor Sir Ynys Môn am gofleidio'r prosiect hwn yn llawn ac am gydweithio â ni i ddod o hyd i ddatrysiadau, symleiddio'r broses a'r llwybrau, ac am edrych ar eich systemau eich hunain ochr yn ochr â ni. Manylir ar y prif arsylwadau o'r prosiect yn yr adroddiad sydd ar gael yn Atodiad 1.

iv) Gwaith Clwstwr

Gwaith Presgripsiynu Cymdeithasol a Deddf y Gofal Gwrthgyfartal:

Mae prosiect presgripsiynu cymdeithasol Môn, a gynhelir gan dîm y Ddolen Gymunedol ym Medrwn Môn (Cyngor Gwirfoddol Cymunedol Ynys Môn), yn enghraifft sy'n bodoli eisoes o gydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd, yr Awdurdod Lleol a'r trydydd sector. Deilliodd hyn o gydweithio rhwng Practis Cyffredinol, Awdurdodau Lleol, y bwrdd iechyd (ysbytai a'r gymuned - yn bennaf COTE, therapïau a'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol) a'r trydydd sector. Cafodd hyn ei ddatblygu gyda grŵp Model Môn. Bu ein clwstwr ar yr adeg yn canolbwyntio ar gynlluniau i osgoi derbyn cleifion oedrannus eiddil lle bo'n bosibl. A hynny trwy gymorth ar gyfer prosiect Gofal Ychwanegol Môn a phrosiectau clwstwr ar wahân yn edrych ar Gynlluniau Gofal Uwch/Cynlluniau Uwchgyfeirio Triniaeth.

Cafodd ein prif nodau presgripsiynu cymdeithasol eu datblygu ar y cyd â'r awdurdod lleol er mwyn ceisio hybu gwell gweithrediad cymdeithasol ac annibyniaeth wrth i ni fynd yn hŷn, er budd unigolion eu hunain, a gobeithio, i leihau'r niferoedd lle bydd angen cymorth ar gyfer eiddilwch yn y dyfodol. Roeddem yn gweld cynnydd mewn pryderon iechyd meddwl ac roeddem yn teimlo bod presgripsiynau cymdeithasol yn bwysig i hybu lles, yn enwedig er mwyn ceisio dad-feddygoli materion iechyd meddwl isel a chymedrol. Ers hynny, mae'r cynllun wedi gallu symud oddi wrth gyllid clwstwr/ICF/ALI i ariannu ei hun trwy amrywiaeth o ffynonellau grant, ac rwy'n meddwl bod hynny'n unigryw ar gyfer prosiectau clwstwr o'r math a'r maint yma, a'i fod yn adlewyrchu'r gwaith anhygoel y mae tîm y Ddolen Gymunedol yn ei wneud.

Gwnaeth rhaglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal (ICL) wahodd a chynnwys grwpiau ac aelodau amrywiol o'r holl brosiectau cydweithredol ac asiantaethau ar draws Ynys Môn i edrych ar anghenion y boblogaeth, yn enwedig lle y gallai fod pryderon ynghylch "gofal gwrthgyfartal" e.e. angen mawr ond gyda'r mewnbwn lleiaf. Gwnaethom ddefnyddio ffynonellau data arloesol gan dîm ICL gyda chefnogaeth iechyd cyhoeddus i ganfod meysydd lle bo angen cymorth. Mae'r ffynonellau data hyn yn seiliedig ar ddata WIMD ar lefel LSOA sy'n caniatáu i ni edrych ar faterion amrywiol sy'n effeithio ar ein poblogaeth:

Dros gyfres o ddigwyddiadau a chyfarfodydd mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol a'r Trydydd Sector, mae clwstrwr Môn wedi cytuno ar dri phrif faes i'w targedu.

- a. Mynediad at amwynderau lleol a chymdeithasol e.e. cludiant ar gyfer y cymunedau mwyaf tlawd heb seilwaith da, gan sicrhau bod adnoddau cymunedol ar gael, yn enwedig yn y trefi a'r pentrefi bach, difreintiedig a mwyaf ynysig.
- b. Parhau i ganolbwyntio ar ymddygiad nad yw'n iach a rheoli clefydau cronig. Ond sicrhau ein bod yn edrych ar ffyrdd o gofnodi cynigion a gwahoddiadau ar gyfer sgrinio a gofal, a thynnu sylw os bydd lefel isel yn manteisio ar y cynnig neu os bydd diffyg ymateb mewn ardaloedd difreintiedig lle mae'r angen yn debygol o fod ar ei uchaf.
- c. Iechyd a Lles Plant a Phobl Ifanc

Mae Ynys Môn bellach wedi creu Gweithgor Presgripsiynu Cymdeithasol sydd wedi esblygu o'r Grŵp Presgripsiynu Cymdeithasol Plant cychwynnol a ddeilliodd o'r gwaith ar raglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal. Mae'r gweithgor yn weithredol ac yn ddiweddar, daeth aelodau'r gweithgor a'r Clwstrwr at ei gilydd mewn gweithdy i edrych ar ddata'n ymwneud ag Anghenion y Boblogaeth ac i fapio gwasanaethau Presgripsiynau Cymdeithasol, mynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau ac i edrych sut lun ddylai fod ar fodel darparu Presgripsiynu Cymdeithasol ar yr Ynys er mwyn cynorthwyo'r boblogaeth o'r crud i'r bedd.

Canlyniadau o waith / cyfarfodydd y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal yn Ynys Môn - Lles Plant:

Mae'n glir o'r data bod gan Ynys Môn gyfradd uchel o ordewdra ymhlith plant a chyfraddau uchel o blant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. Mae targedu cymorth ar gyfer plant yn aml yn cynnwys cefnogi'r teulu. Mae ymddygiad o blentyndod yn cael effaith barhaus ar iechyd a llesiant oedolion. Mae targedu cymorth ar gyfer plant yn aml yn cynnwys cefnogi'r teulu.

Nododd nifer o asiantaethau plant amrywiol, yr ALI, ysgolion a gwasanaethau meddygol (sylfaenol ac eilaidd) hefyd ein bod yn gweld cynnydd mewn pryderon ynghylch iechyd meddwl, iechyd emosiynol ac iechyd ymddygiadol.

Gwnaethom gytuno y dylem anelu at ystyried llesiant plant yn gyflawn. Ar gyfer gofal gwrthgyfartal, byddem yn awyddus i sicrhau ein bod yn canfod ac yn dod o hyd i'r rhai sydd fwyaf mewn angen er mwyn targedu cymorth gwell. Yr ardaloedd mwyaf difreintiedig fydd hyn ym mhob tebyg, ond rydym yn awyddus i ganfod a chefnogi unrhyw blant gymaint â phosibl sydd â lefelau isel o weithgarwch sy'n cyfrannu at lesiant.

Rydym eisoes yn gweld galw uwch o ran plant lle bo angen cymorth, yn amlwg rydym am sicrhau ein bod yn edrych ar weithgareddau llesiant cynyddol ar gyfer y grwpiau hyn, ond rydym yn teimlo ei bod yn bwysig nodi a chanfod lefelau gweithgarwch llesiant isel ymysg plant o bob oed, gyda'r gobaith y gallai ymyrraeth gynnar arwain at leihad o ran nifer y plant sydd angen y cymorth dwys o'r fath fel yr ydym yn ei weld ar hyn o bryd.

Mae'n bwysig ein bod yn gallu cyfeirio at wasanaethau a rhoi anogaeth o ran y gweithgareddau y mae plant a theuluoedd yn awyddus i'w cael. Yr anhawster yw sicrhau

bod adnoddau a gwybodaeth am "yr hyn sydd ar gael" yn gyfredol a helpu pob unigolyn i ddewis yr hyn a allai fod yn briodol iddynt. Dyna brif bwrpas cynllun Presgripsiynu Cymdeithasol y Ddolen Gymunedol.

Fel rhan o'r prosiect hwn, rydym eisoes wedi cyflogi dau Gydlynedd Ardal Lleol (LACs – presgripsiynwyr cymdeithasol) sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl a llesiant yn achos pobl ifanc sydd yn eu harddegau. Mae gennym deulu o ymarferwyr llesiant hefyd mewn practisau sydd â gwybodaeth am Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) a gwasanaethau cymorth lleol i arwain gwasanaethau a chymorth priodol. Mae'r ddau dîm hyn wedi bod ynghlwm wrth y grwpiau presennol yn edrych ar lesiant plant ac mae tîm y Ddolen Gymunedol yn benodol yn teimlo ei fod mewn sefyllfa gref i barhau i gefnogi'r gwaith hwn. Wrth reswm, mae ysgolion yn cyflawni rôl bwysig ac mae angen i ni sicrhau ein bod yn gweithio'n agos gyda'r timau addysg.

Casgliad

Yn fyr, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos cryn gynnydd o ran mynd i'r afael â'r materion critigol a arweiniodd at yr ymyrraeth ar ffurf mesurau arbennig. Er gwaethaf yr heriau parhaus o ran materion ariannol a'r gweithlu, mae'r ffocws ar feysydd risg fawr a'r ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd uchel ac sy'n gynaliadwy wedi arwain at ganlyniadau addawol. Mae'r ymdrechion cydweithredol rhwng y Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Ynys Môn, yn enwedig trwy fentrau fel prosiect eiddilwch Caergybi a phresgripsiynu cymdeithasol, yn tanlinellu pwysigrwydd gofal integredig o ran gwella canlyniadau i gleifion a lleihau derbyniadau ysbyty.

Dangosir ymagwedd ragweithiol y Bwrdd Iechyd ymhellach gan yr adolygiad cynhwysfawr a'r gwaith o roi Cynllun y Gaeaf ar gyfer 2024/25 ar waith, sy'n pwysleisio pwysigrwydd paratoi ar draws gofal cymunedol a gofal sylfaenol, gofal brys, gofal yn yr ysbyty a chynllunio at ryddhau. Mae cyflawni prosiect Ailbennu Cyfeiriad yn Ysbyty Gwynedd yn llwyddiannus yn amlygu'r potensial am ymyriadau wedi'u targedu er mwyn lleddfu pwysau o ran systemau gofal heb ei drefnu a gofal wedi'i gynllunio, gan wella profiadau cleifion a staff yn y pen draw.

Er bod llawer o waith i'w wneud o hyd, mae arwyddion calonogol o welliant ac mae'r sylfeini cadarn sy'n cael eu gosod yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol. Bydd cydweithio parhaus, arloesi, a dull sy'n canolbwyntio ar gleifion yn hollbwysig i gyflawni nodau hirdymor y Bwrdd Iechyd a sicrhau lles y boblogaeth leol. Bydd yr ymrwymiad parhaus i fynd i'r afael â materion llywodraethu, ansawdd gofal, perfformiad, arweinyddiaeth a rheoli ariannol yn hanfodol i gynnal y gwelliannau hyn ac i symud tuag at system gofal iechyd sy'n fwy sefydlog ac yn effeithiol.



RESET Measured Objectives	
An overall reduction in occupied inpatient beds in Ysbyty Gwynedd. (30 beds)	YES
An increase in discharges	YES
Decongestion of ED department	YES
Increase in SDEC activity	NO
Increase in WAST referrals to SDEC	NO
Reduction in speciality review time for patients.	YES
Increased capacity for planned care patients	YES
Reduction in on the day cancellations	YES
Improved theatre efficiency – Late starts, on the day cancellations	YES
Reduction in non-clinical moves across the site	YES


Ysbyty Gwynedd Reset Week September 2024



Medical Outliers


The starting position on Monday 9th September was 82, this reduced each day until the following Monday when it was 52 **(-37%)**

Surgical Outliers reduced from 29 to 24 during the same period **(-17%)**



Out of Area Patients

Patients from outside of BCUHB started the week with a total of 19 and reduced to 10 **(-47%)**




>7 Days Length of Stay

Starting position was 258. This number reduced day after day to 207 **(-20%)**



> 21 Days Length of Stay


Starting position was 118, this number reduced day after day to 102 **(-14%)**



Admissions

Medical admissions Average week 169 reduced to 150 **(-11%)** during RESET


Surgical admission average week 73 increased to 76 **(4%)**



Discharges

Medical discharges average week 163 increased to 180 **(19%)** during RESET

Surgical discharges average 99 to 118 **(10%)**



The system reset will enhance the efficiency of planned and urgent care services, improving patient and staff experiences and positively impacting patient outcomes.

03000 840452

paul.andrew2@wales.nhs.uk

@PaulAndrew

YG RESET (2024) Report: Summary & Findings

Authors: Paul Andrew & Tomos McFarlane

Date: 27/09/2024

PART A PRE-IMPLEMENTATION

